Cais i Gofrestru

â Chyngor Gweithlu Addysg (CGA)

Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

Sut i gwblhau'r ffurflen hon:-

- Dylech gwblhau pob adran berthnasol mewn **inc du** ac mewn **PRIF LYTHRENNAU** .
- Lle bydd blychau ticio'n ymddangos, dylech roi tic yn y rhai perthnasol.
- llungopi o'ch cymhwyster addysgu ffurfiol *lle bo hynny'n bosibl.*

Rhaid ateb pob cwestiwn yn Rhan 8(a) (Datganiad) y ffurflen gais. Os atebwch yn gadarnhaol i unrhyw gwestiwn dylech ddarparu esboniad ysgrifenedig o'ch datganiad yn adran 8(b). Bydd methu â gwneud hyn yn golygu y caiff eich ffurflen gais ei gwrthod.

I ble ddylech anfon eich dogfennau?

Dylech ddychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol at:

Y Tîm Cymwysterau a Chofrestru
Cyngor y Gweithlu Addysg
9fed Llawr
Eastgate House
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Os oes gennych unrhyw ymholiadau dylech gysylltu â'r tîm ar:

Ffôn: +44(0)29 2046 0099
Ebost: **cofrestru@cga.cymru**

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Cais i Gofrestru

â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd a llenwch bob adran. Ysgrifennwch mewn inc du a PHRIF LYTHRENNAU.

Rhan 1 - Manylion personol

Categori ymgeisio (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach ☐
- Athro addysg bellach ☐
- Gweithiwr cymorth dysgu ysgol ☐
- Athro ysgol ☐
  (Yn amodol ar gymwysterau gorfodol gweler y nodiadau canllaw am fanylion pellach)
- Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith ☐
- Gweithiwr ieuenctid ☐
  (Yn amodol ar gymwysterau gorfodol gweler y nodiadau canllaw am fanylion pellach)
- Gweithiwr cymorth ieuenctid ☐
  (Yn amodol ar gymwysterau gorfodol gweler y nodiadau canllaw am fanylion pellach)

Rhif Yswiriant Gwladol

Teitl

Rhyw

Enw llawn (blaenenwau, cyfenw)

Unrhyw enwau blaenorol
(h.y. enw cyn priodi neu newid enw trwy weithred unrhan)

Dyddiad geni

Cyfeiriad cartref

Cod post

Rhif cyswllt

Cyfeiriad e-bost

Rhif Cyfeirnod Athro
(os yn berthnasol)

Dyddiad dyfarnwyd Statws Athro Cymwys **(os yn berthnasol)**

Rhan 2 – Manylion cyflogaeth bresennol / yn yr arfaeth

Teitl y swydd bresennol / yn yr arfaeth

Dyddiad dechrau

Math o Gytundeb (ticiwch lle bo'n briodol)
Llawn amser ☐ Rhan amser ☐ Cyflenwi ☐

Cyflogwr (ysgol, awdurdod lleol, coleg AB neu sefydliad)

Pwnc neu bynciau a addysgwyd / gefnogwyd (os yn berthnasol)

Lefel os yn berthnasol

Cyflogaeth flaenorol

Teitl y swydd blaenorol

Dyddiad diwedd y gyflogaeth

Math o Gytundeb (ticiwch lle bo'n
Llawn amser ☐ Rhan amser ☐ Cyflenwi ☐

Cyflogwr (ysgol, awdurdod lleol, coleg AB neu sefydliad)

Pwnc neu bynciau a addysgwyd / gefnogwyd (os yn berthnasol)

Rhan 3 – Ethnigrwydd

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:
- Indiaidd ☐
- Pacistanaidd ☐
- Bangladeshaidd ☐
- Arall ☐

Gwyn:
- Prydeinig ☐
- Unrhyw gefndir Gwyn arall ☐

Du neu Ddu:
- Caribïaidd ☐
- Affricanaidd ☐
- Arall ☐

Tsieineaidd neu Dsieineaidd Brydeinig ☐

Grŵp ethnig arall ☐

Cymysg:
- Gwyn ac Asiaidd ☐
- Gwyn a Du Caribïaidd ☐
- Gwyn a Du Affricanaidd ☐
- Gwyn a Tsieineaidd ☐

Nid wyf yn dymuno i fy ngrŵp ethnig gael ei gofnodi ☐

Rhan 4 - Hunaniaeth genedlaethol

Cymreig ☐ Seisnig ☐ Albanaidd ☐ Gwyddelig ☐ Prydeinig ☐ Arall ☐ Nid wyf yn dymuno i'm hunaniaeth genedlaethol gael ei chofnodi ☐

Rhan 5 - Yr iaith Gymraeg

	Ydw	Nac Ydw
Ydych chi'n siaradwr Cymraeg?	☐	☐
A ydych yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?	☐	☐
Ydych chi'n gallu addysgu Cymraeg fel Ail Iaith ? *(Athrawon Ysgol yn unig)*	☐	☐

Rhan 6 - Anabledd

☐ Ticiwch y blwch hwn os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb 2010). Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i amcangyfrif nifer yr ymarferwyr ag anableddau fel y'i diffinnir gan ddeddfwriaeth. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch hyn ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn uniongyrchol (www.equalityhumanrights.com).

Rhan 7 - Cymwysterau

Rhestrwch eich cymwysterau isod gan ddechrau gyda'r wobr uchaf. Dylai unrhyw fanylion a ddarperir yn yr adran hon fod yng nghwmni llun-gopïau os ydynt ar gael

Teitl y Cymhwyster *e.e. PhD, Gradd Meistr, TAR, BA / BSc (anrh), Diploma, NVQ e.e. Cynorthwyydd Dysgu, BTEC, HLTA, HND, HNC a Safon A*	**Sefydliad neu Gorff Dyfarnu**	**Blwyddyn Dyfarnu** *Neu ddyddiad y disgwylir dyfarniad os hyfforddi ar hyn o bryd*	**Dosbarth neu Lefel eich Gwobr** *e.e. llwyddo, anrhydedd, teilyngdod*	**Pwnc (pynciau) a astudiwyd**

☐ **Ticiwch y blwch os nad ydych yn dal unrhyw cymhwyster ffurfiol**

Rhan 8(a) - Datganiad

Os ydych yn ateb yn GADARNHAOL i unrhyw rai o'r cwestiynau canlynol, dylech ddarparu, yn Rhan 8(b) sydd wedi'i hatodi, esboniad manwl o'ch datganiad.

	Ydw	Nac Ydw
1. A ydych chi **erioed** wedi bod neu a ydych ar hyn o bryd yn destun gwaharddiad, gwaharddiad rhannol, rhybudd neu unrhyw gamau gweithredu arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu unrhyw sefydliad arall yn y DU neu dramor mewn perthynas â gweithio â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, neu'n ymwneud â chamymddygiad, neu a ydych yn destun ymchwiliad gan gorff o'r fath ar hyn o bryd?	☐	☐
2. A ydych chi **erioed** wedi bod neu a ydych ar hyn o bryd yn destun sancsiwn disgyblu (gan gynnwys gorchmynion interim) gan unrhyw gorff proffesiynol neu reoleiddio arall yn y wlad hon neu dramor, neu a ydych yn destun ymchwiliad gan gorff o'r fath ar hyn o bryd?	☐	☐
3. A ydych chi erioed wedi cael eich gwrthod rhag cofrestru neu gael trwydded i ymarfer gan unrhyw gorff rheoleiddio arall yn y DU neu wlad arall?	☐	☐
4. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, a ydych chi wedi bod yn destun camau disgyblu gan unrhyw gyflogwr sydd wedi golygu eich bod wedi gadael eu cyflogaeth (trwy ddiswyddo, cytundeb setlo neu unrhyw ddull arall)?	☐	☐
5. A ydych chi dan ymchwiliad gan **unrhyw** gyflogwr ar hyn o bryd? Ystyr 'unrhyw gyflogwr' yw pob cyflogwr, nid yn unig y rhai hynny sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y sector addysg.	☐	☐
6. A oes gennych unrhyw rybuddiadau neu euogfarnau (gan gynnwys euogfarnau sydd wedi darfod), nad ydynt yn rhai sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd wedi eu 'diogelu' dan ddiwygiadau i Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 fel y'i diwygiwyd, a gyhoeddwyd gan lys barn yn y DU (gan gynnwys llys milwrol neu dribiwnlys) neu unrhyw wlad arall?	☐	☐
7. A ydych ar hyn o bryd yn destun unrhyw archwiliad heddlu yn y DU neu unrhyw wlad arall? *(Cyfeiriwch at www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance am arweiniad pellach ar droseddau 'wedi'u hamddiffyn').*	☐	☐

Dymunaf ymgeisio i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori neu gategorïau cofrestru a ddetholwyd yn rhan 1. Rwyf wedi darllen y nodiadau canllaw sydd wedi'u cynnwys gyda'r ffurflen hon a deallaf y bydd gofyn imi gydymffurfio â Rheolau Cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (gweler www.cga.cymru) os bydd fy nghais i gofrestru'n llwyddiannus. Deallaf hefyd y gallai peidio â chydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer CGA fwrw amheuaeth dros fy nghofrestriad gyda'r Cyngor. Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn gywir.

Llofnod: Dyddiad:

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn rheolwr data o dan delerau'r Ddeddf Diogelu Data. Caiff yr wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen hon ei phrosesu at y dibenion angenrheidiol i CGA gyflawni ei orchwyl a'i rwymedigaethau cyfreithiol fel y nodir yn Neddf Addysg (Cymru) 2014 a Rheoliadau cysylltiedig.

Gellir rhannu'r wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen hon gyda thrydydd partïon dethol fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw rai o'r Cynghorau Addysg neu Addysgu yn y DU. Dim ond gyda'r sefydliadau hynny y mae'n gyfreithlon i CGA rannu data personol gyda nhw y gwnaiff hyn, a lle bydd angen rhannu data personol, byddwn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Rhan 8(b) Esbonio datganiad(au)

Os ydych wedi ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gwestiynau yn Rhan 8(a), darparwch fanylion pellach isod. Os byddwch yn methu â darparu'r manylion gofynnol o dan y rhan hon, bydd oedi i'ch cais i gofrestru.

A fyddech cystal â darparu:

- enw llawn y corff, a/neu'r cyflogwr, a/neu'r heddlu a oedd yn gysylltiedig ac unrhyw fanylion cyswllt perthnasol (enw, cyfeiriad ac e-bost):

- dyddiad(au) perthnasol a manylion bras y mater(ion) a ddatgelir, boed yn y gorffennol neu'n rhai cyfredol (er enghraifft, esboniad o'r ymddygiad a arweiniodd at euogfarn, gwaharddiad, diswyddo):

- canlyniad terfynol y mater(ion) a ddatgelir (er enghraifft, Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol, ychwanegu at y Rhestr Gwahardd Plant, rhybuddiad, Gorchymyn Atal, diswyddo):

- os cafwyd euogfarn neu rybuddiad, enw'r drosedd, a'r gosb a osodwyd:

Rhoddaf ganiatâd i CGA atgynhyrchu'r datganiad a wnaf uchod i'r cyflogwr, y sefydliad neu'r corff y cyfeiriaf ato at er mwyn gwirio fy natganiad.

Llofnod: Dyddiad:

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Nodiadau Cyfarwyddyd

Ar gyfer ymarferwyr sy'n gwneud cais i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Categorïau cofrestru

Mae'n rhaid eich bod wedi eich cofrestru yn y categori neu gategorïau cywir ar gyfer y gwaith rydych yn ei wneud / yn bwriadu ei wneud. Y categorïau yw:

- **Athro ysgol** — i weithio fel athro ysgol (gyda Statws Athro Cymwys) mewn ysgol a gynhelir eu ysgol arbennig nas gynhelir yng Nghymru. **Nodwch**: mae athrawon ysgol y mae gofyn iddynt gwblhau'r cyfnod Sefydlu yng Nghymru, sydd heb wneud, yn cael statws cofrestru 'dros dro' yn unig (yn amodol ar ddiwallu'r meini prawf priodoldeb).
- **Athro addysg bellach —** i weithio fel athro addysg bellach (darlithydd) mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.
- **Gweithiwr cymorth dysgu ysgol** — i weithio fel gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas gynhelir yng Nghymru.
- **Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach** — i weithio fel gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.
- **Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith** – i weithio fel ymarferydd dysgu seiliedig ar waith (ee hyfforddwr, aseswr, gwaredydd dysgu, hyfforddwr neu'n fentor) **ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu seiliedig ar waith**. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymarferwyr hynny sy'n cydlynu cyflwyno dysgu seiliedig ar waith megis: y rhai sy'n ymwneud â rolau rheoli / arweinyddiaeth; staff sicrwydd ansawdd.
- **Gweithiwr ieuenctid** – i weithio fel person sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid dros, neu ar ran, awdurdod lleol, ysgol, sefydliad AB neu sefydliad gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r categori hwn o gofrestriad yn ddarostyngedig i ofynion cymhwyster gorfodol. Maent yn cael eu rhestru ar ein gwefan.
- **Gweithiwr cymorth ieuenctid** - i weithio fel person sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid dros, neu ar ran, awdurdod, ysgol, sefydliad AB lleol neu sefydliad gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r categori hwn o gofrestriad yn ddarostyngedig i ofynion cymhwyster gorfodol. Maent yn cael eu rhestru ar ein gwefan.

OS NAD YDYCH YN SIŴR O BA GATEGORI NEU GATEGORÏAU SY'N BERTHNASOL I CHI DYLECH GYSYLLTU Â'R TÎM CYMWYSTERAU A CHOFRESTRU AM GYNGOR AR 029 2046 0099 NEU E-BOSTIWCH cofrestru@cga.cymru

Gwneud cais i gofrestru

I bob ymgeisydd

- rhaid i chi beidio â bod wedi eich gwahardd rhag addysgu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, CGA nac unrhyw un o'u cyrff cyfatebol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn Rhan 8 (Datganiad) y ffurflen gais a darparu esboniad manwl o unrhyw ddatganiad a wnaed. Bydd methu â gwneud hyn yn golygu y caiff y ffurflen gais ei gwrthod;
- rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cymwysterau addysgu ffurfiol a'ch gradd (e.e. llungopïo tystysgrifau) os yn berthnasol.

Noder

Wrth ystyried cwestiynau'r datganiad mewn perthynas â throseddau sydd wedi'u 'gwarchod'. Mae arweiniad pellach ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance).

Yn ogystal â'r uchod, er mwyn ymgeisio i gofrestru yn y categori Athro Ysgol, rhaid i chi:

- feddu ar y Statws Athro Cymwys (SAC) priodol **sy'n cael ei gydnabod o dan reoliadau Cymru.** Noder: **nid** yw'r unigolion canlynol yn cael eu cydnabod fel athrawon ysgol cymwys yng Nghymru ac NID ydynt yn gymwys felly i gofrestru yn y categori Athro Ysgol:
  - athrawon ysgol a hyfforddodd yn Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r UDA ac y dyfarnwyd SAC iddynt gan y National College for Teaching & Leadership (NCTL) yn Lloegr. NID yw'r gydnabyddiaeth hon yn cael ei chydnabod o dan reoliadau Cymru;
  - Athrawon a gymhwysodd ar gyfer AB sy'n cael eu cydnabod fel athrawon ysgol cymwys gan yr NCTL ac sy'n gymwys felly i weithio fel athrawon ysgol cymwys yn Lloegr yn unig. NID yw unigolion o'r fath yn cael eu cydnabod fel athrawon ysgol cymwys o dan reoliadau Cymru.
- rhaid eu bod heb fethu â chwblhau cyfnod Sefydlu yng Nghymru neu Loegr yn llwyddiannus.

Er mwyn gwneud cais i gofrestru fel gweithiwr ieuenctid neu weithiwr cymorth ieunctid rhaid:

- **Cynnal o leiaf un cymhwyster gwaith ieuenctid priodol fel a restrir yn y rheoliadau.** Cyfeiriwch at ein gwefan www.cga.cymru am arweiniad pellach ynghylch cymwysterau gwiethiwr ieuenctid.

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Nodiadau cyfarwyddyd

Ar gyfer ymarferwyr sy'n gwneud cais i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Yr iaith Gymraeg (Rhan 5)

- "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" Dylech ateb "Ydw" os ydych yn ystyried eich hun yn rhugl, neu'n weddol rugl, yn y Gymraeg.
- "A ydych yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?" Dylech ateb "Ydw" os ydych yn cyflwyno addysg neu hyfforddiant yn y Gymraeg.
- "Ydych chi'n gallu addysgu Cymraeg fel ail iaith?" ***(mae hyn yn berthnasol i gofrestru fel Athro Ysgol yn unig)*** Y gofyniad ar hyn o bryd yw i'r Gymraeg gael ei haddysgu fel ail iaith i bob dysgwr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn y cyfnod cynradd, cydnabyddir y bydd gallu athrawon i addysgu Cymraeg fel ail iaith yn amrywio, gan ddibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys gallu'r athro ei hun yn y Gymraeg a hyfforddiant. Fel athro ysgol sy'n gymwys i addysgu mewn ysgol fabanod, iau neu gynradd, dylech ateb "Ydw" os ydych yn addysgu Cymraeg fel ail iaith i'ch dysgwyr ar hyn o bryd, neu wedi gwneud hynny; fel arall, atebwch "Nac ydw".

Cymwysterau (Rhan 7)

Rhestrwch eich cymwysterau gan ddechrau gyda'r uchaf os gwelwch yn dda:

- **Ôl-raddedig—**fel TAR (SAC), PCET, Meistr neu PhD.
- **Gradd** - os oes gennych radd neu gymhwyster sy'n gyfwerth â gradd
- **Cymwysterau perthnasol eraill** megis NVQ, BTEC, HND, HNC, Diploma, Safon Uwch neu gymwysterau rôl penodol.

Dylech gynnwys gopïau o'r tystysgrifau (os ydynt ar gael). PEIDIWCH ag anfon tystysgrifau gwreiddiol os gwelwch yn dda.

Cyfeirwch at ein gwefan www.cga.cymru am wybodaeth bellach ynghylch cymwysterau gweithiwr ieuenctid.

Rhyddhad ar dreth

Mae eich ffi gofrestru yn gymwys am ryddhad treth ac nid yw'n effeithio ar eich gallu i hawlio rhyddhad treth ar danysgrifiadau presennol gyda chymdeithasau neu undebau athrawon. Er mwyn hawlio rhyddhad treth, dylech gysylltu â'ch swyddfa dreth leol, ac nid CGA.

Dychwelyd eich ffurflen gais

Gallwch ddychwelyd eich cais drwy'r post:

Y Tîm Cymwysterau a Chofrestru,

Cyngor y Gweithlu Addysg,

9fed Llawr, Eastgate House,

35-43 Ffordd Casnewydd,

Caerdydd, CF24 0AB

Neu - Gallwch e-bostio copïau wedi'u sganio a'u llofnodi i: **cofrestru@cga.cymru** (NODER- maint mwyaf ffeil yw 5MB).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar ymgeisio i gofrestru gyda'r Cyngor, dylech gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol drwy e-bost neu drwy ffonio (+44(0)29 2046 0099) a byddant yn hapus i'ch cynorthwyo.

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Ffurflen Dalu
Payment Form

Blwyddyn gofrestru 01 Ebrill 2020- 31 Mawrth 2021

2020/21

Registration year 01 April 2020 - 31 March 2021

Manylion ffi / Fee details

(gweler y canllawiau am ragor o wybodaeth ar ffioedd / see guidance for further information on fees)

Enw llawn / Full name:

Rhif cyfeirnod athro (Athrawon gyda SAC yn unig) / Teacher reference number (Teachers with QTS only):

Rhif yswiriant gwladol / National insurance number:

Ticiwch y ffi berthnasol i'w dalu / Please tick the relevant fee to be paid:

☐ **£45** - Athro addysg bellach, Athro ysgol a Gweithiwr Ieuenctid a Ymarferydd dysgu yn y gwaith
FE Lecturer, School teacher, Youth Worker and Work-based Leaning practitioner

☐ **£15** - Gweithwyr cymorth dysgu AB, Gweithwyr cymorth dysgu ysgol a Gweithiwr Ieuenctid
FE learning support worker, School learning support workers and Youth support worker

Os oes angen i gofrestru mewn mwy nag un categori cofrestru bydd dim ond angen i chi talu un ffi. Codir ffi hon ar gyfradd uwch.
If you need to register in more than one category of registration you only need to remit one fee. This fee will be charged at the higher rate.

Opsiynau talu / Payment options

☐ **Opsiwn 1 - Siec / Option 1 - Cheque**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu eich enw llawn, rhif YG a'ch rhif cyfeirnod athro (os caiff ei gynnal) ar gefn eich siec. **Dylai sieciau fod yn daladwy i 'CGA'**
Please ensure that your full name, NI number and teacher reference number (if held) is written on the back of your completed cheque. **Cheques should be made payable to 'EWC'.**

☐ **Opsiwn 2- Cerdyn debyd / Option 2 - Debit card**

Cwblhewch fanylion eich cerdyn debyd yn yr adran isod.
Please complete your debit card details in the section below

Manylion eich Cerdyn Debyd / Debit Card Details

Math o gerdyn / Type of card:

Y cardiau a dderbynnir / Cards accepted:
Visa, Mastercard, Switch, Maestro, Solo, Visa Delta

Rhif y cerdyn / Card number:

Dyddiad dechrau / Start date: (MM/BB) (MM/ YY)

Dyddiad terfyn / Expiry Date: (MM/BB) (MM/ YY)

Cod diogelwch y cerdyn (y 3 digid olaf ar gefn eich cerdyn, ar stribed y llofnod) / Card security code (last 3 digits on the back of your card at signature strip):

Enw deiliad y cerdyn (enw ar y cerdyn at ddibenion diogelwch) / Card holder name (name on card for security purposes):

Llofnod deiliad y cerdyn / Card holder signature:

Dyddiad / Date: